



AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

RHESTR CYFRIFOLDEB A CHYDNABYDDIAETH ARIANNOL AELODAU 2016/17

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 rhoddwyd cylch gorchwyl estynedig i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (ACGA) ar gyfer darnodi lefelau cydnabyddiaeth ar gyfer holl aelodau Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol.

Mae'r rheoliadau newydd hynny yn amnewid Cynllun Lwfansau blaenorol Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn unol â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau ar gyfer Aelodau o Gyngorau Sir a Chyngorau Bwrdeistrefol ac Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol) Cymru) 2002.

Gellir cael arweiniad a gwybodaeth bellach oddi ar y wefan a ganlyn:

<http://gov.wales/irpwsb/home/publication/2016-17/?skip=1&lang=cy>

1.0 Diffiniadau

Yr ymadroddion canlynol

“Dyletswydd Gymeradwy”

Y dyletswyddau a amlinellir yn Adran 3 isod.

“Aelod yr Awdurdod”

Aelodau'r Awdurdod a benodir gan Gyngorau Sir neu Gyngorau Bwrdeistref Sirol a Llywodraeth Cymru.

“Ffi Ddyddiol”

Taliad a wneir i Aelodau'r Pwyllgor Safonau yn unol â'r adroddiad a gyhoeddwyd gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

“Cyfnod Perthnasol”

Os yw aelod i ffwrdd o'r cartref am o leiaf 4 awr, neu gyfnod llai, gyda chaniatâd yr Awdurdod, yn cychwyn cyn 07:00 (Brecwast)

Os yw aelod i ffwrdd o'r cartref am o leiaf 4 awr, neu gyfnod llai, gyda chaniatâd yr Awdurdod, yn cychwyn cyn 12:00 ac yn gorffen wedi 14:00 (Cinio)

Os yw aelod i ffwrdd o'r cartref am o leiaf 4 awr, neu gyfnod llai, gyda chaniatâd yr Awdurdod, yn gorffen wedi 19:00 (Swper)

“Uwch Gyflog”

Cyflog a delir bob blwyddyn i Aelodau'r Awdurdod sydd â'r cyfrifoldebau arbennig a enwir yn 2 isod.

| | |
|-------------------------------------|--|
| “Cyflog Sylfaenol” | Telir Cyflog Sylfaenol o £3,600 y flwyddyn i'r Holl Aelodau, i'w dalu yn <u>fisol</u> dros gyfnod y penodiad. |
| “Blwyddyn” | Y 12 mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth. |
| 2.0 Cyfraddau Taliad | |
| 2.1 Treuliau Cynhaliath | £5.59 Brecwast £7.83 Cinio ganol dydd £10.48 Pryd gyda'r nos £4.10 Lwfans allan o boced |
| 2.2 Treuliau Dros Nos | £28 y dydd – lwfans dydd ar gyfer prydau, yn cynnwys brecwast pan na cheir hwnnw fel rhan o'r tâl dros nos. (hyd at uchafswm) o £150.00 i Lundain (yn cynnwys TAW) |
| | (hyd at uchafswm) o £95.00 i bob ardal arall (yn cynnwys TAW) |
| | £25.00 am aros gyda ffrindiau neu deulu. |
| 2.3 Uwch Gyflog | |
| Cadeirydd yr Awdurdod | £12,250 y.f. (yn gynnwysedig o Gyflog Sylfaenol Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi tynnu cyfraniad o £50 tuag at gostau prydau ym Mhlas Tan y Bwlch). |
| Is Gadeirydd yr Awdurdod | £5,950 y.f. (yn gynnwysedig o Gyflog Sylfaenol Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi tynnu cyfraniad o £50 tuag at gostau prydau ym Mhlas Tan y Bwlch). |
| Cadeiryddion Pwyllgor (hyd at ddau) | £5,950 y.f. (yn gynnwysedig o Gyflog Sylfaenol Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi tynnu cyfraniad o £50 tuag at gostau prydau ym Mhlas Tan y Bwlch). |
| 2.4 Cyflog Sylfaenol | £3,550 y.f. (ar ôl tynnu cyfraniad o £50 tuag at gostau prydau ym Mhlas Tan y Bwlch). |
| 2.5 Gofal, Teithio a Chynhaliath | Bydd yr Awdurdod yn gwneud darpariaeth ar gyfer ad-dalu treuliau angenrheidiol ar gyfer gofal plant ac oedolion dibynnol (a ddarperir gan ofalwyr anffurfiol neu ffurfiol) hyd at uchafswm o £403 y mis, pan mae'n cael ei hawlio ar sail derbynneb gan aelod Awdurdod y Parc Cenedlaethol neu aelod enwebedig fel |

sydd ei angen i gyflawni dyletswyddau Awdurdod Parc Cenedlaethol. Telir ad-daliad drwy gyflwyno derbynneb sy'n dangos yr union gost.

2.6 Lwfans Milltiroedd

ar gyfraddau presennol CthEM sydd ar hyn o bryd yn:-

| | |
|------------------------------------|-----------------------------|
| Hyd at 10,000 milltir | 45c y filltir |
| Dros 10,000 milltir | 25c y filltir |
| Beiciau modur preifat | 24p y filltir |
| Beiciau | 20c y filltir |
| Tâl atodol ar gyfer cludo teithwyr | 5c y filltir i bob teithiwr |

2.7 Ffi Ddyddiol

Fel y rhagnodir ar hyn o bryd gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnybyddiaeth Ariannol.

Mae'r taliadau yn cael eu capio ar uchafswm o 4 diwrnod llawn y flwyddyn i unrhyw aelod unigol.

Cadeirydd, Pwyllgor Safonau

£256 ffi ddyddiol (4 awr a throsodd)
(£128 am ½ diwrnod – hyd at 4 awr)

Aelod Cyffredin, Pwyllgor Safonau

£198 ffi ddyddiol (4 awr a throsodd)
(£99 am ½ diwrnod – hyd at 4 awr)

- Mae amser rhesymol i baratoi cyn cyfarfodydd yn gymwys i'w gynnwys mewn hawliadau a wneir gan aelodau cyfetholedig – gall swyddog priodol benderfynu faint cyn y cyfarfod.
- Gellir cynnwys amser teithio i'r cyfarfod ac oddi yno yn yr hawliadau am daliadau a wneir gan aelodau cyfetholedig (hyd at uchafswm y gyfradd ddyddiol).

2.8 Bod y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yn cael ei awdurdodi mewn amgylchiadau arbennig i gymeradwyo gwariant uwchlaw'r raddfa llety.

3.0 Dyletswyddau wedi'u Cymeradwyo

Caiff treuliau Teithio a Chynhaliaeth eu had-dalu os gwneir y gwariant yn rhesymol a phriodol wrth ymgymryd â Dyletswyddau Cymeradwy yn unig.

Ystyr 'Dyletswyddau Cymeradwy' yw:

- (a) bod yn bresennol yng nghyfarfod yr awdurdod neu unrhyw bwyllgor yr awdurdod neu unrhyw gorff mae'r awdurdod yn gwneud penodiadau neu enwebiadau iddo neu unrhyw bwyllgor corff o'r fath;

- (b) bod yn bresennol yng nghyfarfod unrhyw gymdeithas awdurdodau y mae'r awdurdod yn aelod ohoni;
- (c) bod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod arall a awdurdodwyd gan yr awdurdod neu bwyllgor yr awdurdod neu gydbwyllgor yr awdurdod ac un neu ragor o awdurdodau eraill;
- (ch) dyletswydd yr ymgymmerir ag ef yn unol â rheol sefydlog sy'n mynnu bod aelod neu aelodau yn bresennol pan gaiff dogfennau tendro eu hagor;
- (d) bod yn bresennol mewn unrhyw achlysur hyfforddi neu ddatblygu a gymeradwyir gan yr awdurdod; ac
- (dd) unrhyw ddyletswydd arall a gymeradwywyd gan yr awdurdod, neu unrhyw ddyletswydd arall o ddosbarth a gymeradwywyd ganddo, yr ymgymmerir ag ef er mwyn cyflawni swyddogaethau'r awdurdod neu unrhyw un o'i bwyllgorau, neu mewn perthynas â chyflawni'r rheiny. Mae hyn yn cynnwys:
 - (i) Unrhyw bresenoldeb fel y bo'n ofynnol gan y Rheoliad Ariannol neu'r Rheolau Sefydlog sydd ynghlwm wrth gytundebau a awdurdodir neu y gofynnir amdano gan y Rheolau Sefydlog.
 - (ii) Unrhyw bresenoldeb ar Swyddog yr Awdurdod ar fusnes.
 - (iii) Presenoldeb i archwilio dogfennau cefndir o dan Adran 100D o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

4.0 Adolygu Cyflog Sylfaenol ac Uwch Gyflog a Ffi Ddyddiol

Mae'r Cynllun hwn yn galluogi:

I'r Cyflog Sylfaenol a'r Uwch Gyflog a'r Ffi Ddyddiol gael ei gynyddu gan ystyried y materion a ddarnodir o bryd i'w gilydd gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol.

5.0 Adolygu Treuliau Teithio, Aros Dros Nos a Chynhaliaeth

Gosodir y lefelau treulio Teithio, Aros Dros Nos a Chynhaliaeth wrth ystyried y treuliau a ddarnodir o bryd i'w gilydd gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol.

6.0 Etholiad i Beidio â Hawlio Cyflog

Trwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, gall unrhyw Aelod ethol i hepgor unrhyw ran o'i hawl i gyflog o dan y cynllun.

7.0 Costau Cynhaliaeth

Ad-delir costau cynhaliaeth os gwneir y gwariant yn rhesymol a phriodol wrth ymgymryd â Dyletswydd Gymeradwy trwy ddangos derbynneb briodol. Ni chaiff taliadau fod yn uwch na'r uchafswm a amlinellir uchod ar gyfer y Cyfnodau Perthnasol

8.0 Trefniadau Teithio

Dylid archebu pob siwrnai trên neu ar unrhyw gludiant arall ymlaen llaw a bydd yr Awdurdod yn talu amdanynt. Bydd yna achosion lle bydd y Prif Weithredwr yn awdurdodi archebion uniongyrchol neu drefniadau amgen. Bryd hynny, fe ad-delir yr union swm a wariwyd ar ôl derbyn y derbynebaw sydd â'r manylion priodol arnynt, hyd at uchafswm ffi'r Dosbarth Safonol perthnasol neu'r union filltiroedd.

Ni fydd y paragraff hwn yn gymwys wrth ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus leol. Bydd y costau hynny'n cael eu had-dalu ar ôl i'r Aelod gyflwyno'r derbynebaw priodol.

9.0 Llety

- (a) Rhaid i'r Awdurdod archebu bob llety ymlaen llaw ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol a gymeradwywyd gan y Prif Weithredwr neu'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.
- (b) Os bydd rhywun heblaw'r Awdurdod yn archebu llety, rhoddir ad-daliad dim ond ar ôl i'r derbynebaw â'r manylion priodol arnynt gael eu cyflwyno.
- (c) Ni ddylai'r costau llety ym mharagraff (b) fynd yn uwch na'r symiau a osodir ym mharagraff 2.2 uchod oni bai y'i cymeradwyir gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol mewn amgylchiadau eithriadol.

10.0 Costau Achlysurol

Bydd yr Awdurdod yn ad-dalu costau megis tocynnau meysydd parcio, trenau tanddaearol a thollau y talwyd amdanynt yn rhesymol a phriodol gan Aelodau mewn perthynas â chyflawni Dyletswyddau Cymeradwy. Rhaid cyflwyno derbynebaw â'r manylion priodol arnynt wrth hawlio ad-daliad.

11.0 Ad-dalu Cyflogau, Lwfansau neu Ffioedd

Bydd yr Awdurdod yn mynnu bod y cyfryw ran o gyflog, lwfans neu ffi yn cael ei had-dalu pan fydd taliad eisoes wedi'i wneud ar gyfer unrhyw gyfnod pan fydd yr aelod neu'r aelod cyflogedig dan sylw:

- Wedi'i atal dros dro neu wedi'i atal dros dro yn rhannol rhag cyflawni dyletswyddau neu gyfrifoldebau'r aelod/aelod cyfetholedig hwnnw yn unol â Rhan 3 o Ddeddf 2000 neu Reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf honno.
- Yn peidio â bod yn aelod neu'n aelod cyfetholedig o'r Awdurdod.
- Neu heb fod â hawl, mewn unrhyw ffordd, i gael cyflog, lwfans neu ffi mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw.

12.0 Nodiadau

12.1 Ni thelir hawliadau a gyflwynir ar ôl 3 mis calendr o ddiwedd y mis y talwyd y costau.

12.2 Bydd taliad ar y 24ain o bob mis.

- 12.3 Bydd Cyflogau Uwch a Chyflogau Sylfaenol yn cael eu talu'n fisol.
- 12.4 Ni chaniateir talu ond un Cyflog Sylfaenol i Aelod o'r Awdurdod.
- 12.5 Ni all Aelodau Awdurdod Lleol hawlio yn erbyn yr Awdurdod yn ogystal â'u Cyngor eu hunain am ymgymryd â'r un ddyletswydd.
- 12.6 Mater i Aelodau yw cyflwyno hawliad. Fodd bynnag, bydd y Swyddogion yn gwneud eu gorau i gynorthwyo aelodau i ddehongli'r Rheolau.
- 12.7 Pan na fydd cyfnod Aelod neu Gadeirydd neu Is-Gadeirydd yn dechrau neu'n dod i ben ar ddechrau neu ddiwedd blwyddyn, bydd ganddo/ganddi hawl i ran o daliad cyflog sylfaenol ac/neu uwch gyflog sydd gymesur â nifer y dyddiau a dreuliodd fel Aelod/Cadeirydd/Is-Gadeirydd, o'u cymharu â nifer y dyddiau yn y flwyddyn honno.
- 12.8 Efallai y bydd rhai o Bolisiâu Yswiriant yr Awdurdod yn gwarchod Aelodau yn ystod cyfnod eu dyletswyddau. Fodd bynnag, eu cyfrifoldeb hwy fydd sicrhau bod ganddynt Yswiriant Car dilys sy'n cydymffurfio â'r anghenion cyfreithiol perthnasol ac yn eu gwarchod ar gyfer defnyddio'u cerbydau wrth ymgymryd â Dyletswyddau Cymeradwy neu mewn perthynas â nhw.

13.0 **Tâl Aelodau**

13.1 Aelodau sy'n derbyn Cyflog Sylfaenol:-

Y Cynghorydd Thomas Griffith Ellis
 Y Cynghorydd Craig ab Iago
 Y Cynghorydd Sion Wyn Jones
 Y Cynghorydd Dilwyn Lloyd
 Y Cynghorydd Ifor Glyn Lloyd
 Y Cynghorydd John Alexander MacLennan
 Y Cynghorydd Elizabeth Roberts
 Y Cynghorydd John Pughe Roberts
 Ms. Tracey Evans
 Mrs. M. June Jones
 Mrs. Marian Wyn Jones
 Mr. David Roberts
 Mr. Ceri Stradling

13.2 Aelodau sy'n derbyn Uwch Gyflog:-

| | |
|---------------------------------|--|
| Y Cynghorydd E. Caerwyn Roberts | Cadeirydd yr Awdurdod (Band 3) |
| Mr. Owain Wyn | Is Gadeirydd yr Awdurdod |
| Y Cynghorydd Elwyn Edwards | Cadeirydd Pwyllgor Cynllunio a Mynediad |
| Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd | Cadeirydd Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |

13.3 Aelodau Cyfetholedig â hawl i dderbyn Ffi Ddyddiol:-

Mrs. Sharon Warnes

Aelod Cyffredin o'r Pwyllgor Safonau

13.4 Aelodau Eithriedig

Yn rhinwedd y ffaith ei fod yn Aelod Gweithredol o Gyngor Gwynedd ac eisoes yn derbyn Uwch Gyflog Band 1 gyda'r awdurdod hwnnw, nid yw'r Cynghorydd Dyfrig Siencyn yn gymwys i dderbyn cyflog gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.